


Afasic CYMRU

voice for life
llais ar gyfer bywyd

Charity No. 1045617

Helpu eich plentyn oedran ysgol uwchradd
i egluro ac adrodd storïau



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Egluro ac adrodd storïau

Efallai y bydd yn eich synnu bod y medrau sydd eu hangen i wrando, deall a siarad, sydd fel arfer yn dod yn amlwg yn ystod plentyndod cynnar, yn parhau i gael eu gloywi a'u datblygu yn ystod blynyddoedd llencyndod yn yr ysgol uwchradd.

Mae'r gallu i egluro syniadau mwy cymhleth ac adrodd hanesion mwy cymhleth yn rhannau allweddol o ddatblygiad trwy gydol llencyndod.

Mae cefnogi plentyn neu berson ifanc i ddefnyddio brawddegau hwy, egluro syniadau mwy cymhleth a chreu storïau mwy cymhleth o gymorth gydag:

- ✓ Ymuno mewn sgysiau a thrafodaethau
- ✓ Ateb cwestiynau mwy cymhleth
- ✓ Gweithio mewn tîm
- ✓ Datblygu meddwl a dysgu
- ✓ Egluro teimladau ac emosiynau
- ✓ Gwneud ffrindiau a datblygu perthynas
- ✓ Datrys problemau a thorri gwrthdaro

Os ydych chi'n pryderu am wrando, deall a/neu siarad eich plentyn, beth bynnag yw ei oedran, ewch i gael cyngor gan therapydd iaith a lleferydd cymwysedig.

Darllenwch y daflen hon i gael syniadau cyffredinol ynghylch sut y gallwch helpu eich plentyn i ddatblygu ei siarad er mwyn egluro ac adrodd storïau. Addaswch yr awgrymiadau i gyd-fynd ag oedran a chyfnod datblygiad eich plentyn.

Creu brawddegau hwy, egluro ac adrodd storïau

Mae'r gallu i siarad mewn brawddegau hwy, egluro syniadau mwy cymhleth ac adrodd storïau manwl yn datblygu trwy gydol llencyndod.

i. Brawddegau hwy


Mae datblygu gramadeg (yn ogystal â geirfa) yn helpu eich plentyn i ddefnyddio brawddegau hwy a mwy cymhleth. Mae 'cysyllteiriau' yn eiriau arbennig y gellir eu defnyddio i ymestyn brawddegau a chysylltu syniadau wrth siarad ac ysgrifennu. Ymysg enghreifftiau o 'gysyllteiriau' mae: oherwydd, felly, hefyd, cyn, er, fodd bynnag, cyn belled â bod.

ii. Egluro

Mae defnyddio cysyllteiriau hefyd yn helpu i egluro, er enghraifft, reolau gemau, datrysiad i broblem neu ailadrodd cyfres o ddigwyddiadau cymhleth. Mae'r gallu i gyfleu eglurhad clir a manwl yn parhau i ddatblygu wrth i fedrau gramadegol aeddfedu.

iii. Storïau

Trwy ei lencyndod bydd eich plentyn fel arfer yn datblygu ei allu i adrodd storïau hwy, mwy manwl ac wedi'u cynllunio'n dda gan sicrhau bod y gwrandawr yn dilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud.



Ffyrdd y gallwch chi helpu

- a. Gofynnwch i'ch plentyn beth mae'n feddwl fyddai'n helpu wrth egluro ac adrodd storïau. Anogwch eich plentyn i ddweud wrthy'ch chi pan fydd yn ei chael hi'n anodd egluro rhywbeth.
- b. Bydd yr amgylchedd gwranddo gartref yn helpu eich plentyn gyda'i siarad. Gostyngwch sŵn cefndirol gan fod hyn yn ei gwneud hi'n haws i siarad a gwranddo.
- c. Crëwch gyfleoedd ar gyfer sgysiau yn ystod tro, er enghraifft, neu yn y car neu wrth goginio gyda'ch gilydd. Oedwch i adael iddo gychwyn y sgwrs! Osgowch ofyn llawer o gwestiynau, un ar ôl y llall. Siaradwch mewn ffordd ychydig yn arafach a gadael 5-10 eiliad i'ch plentyn ddeall yr hyn rydych chi'n ei ddweud.
- ch. Anogwch eich plentyn i gymryd ei amser i feddwl am yr hyn mae arno eisiau ei ddweud.
- d. Anogwch eich plentyn i feddwl am ffordd arall o ddweud rhywbeth neu o ddangos beth mae'n ei feddwl. Gall cefnogaeth gweledol megis meimio, tynnu llun, delweddau, ffotograffau a gwrthrychau helpu.
- dd. Anogwch eich plentyn i gynllunio beth i'w ddweud, yn enwedig os yw er mwyn paratoi ar gyfer siarad mewn grŵp.
- e. Eglurwch ystyron penodol cysyllteiriau a rhowch enghreifftiau o ffyrdd i'w defnyddio mewn brawddegau hwy pan fyddwch chi'n siarad a/neu'n darllen gyda'ch gilydd. Mae geiriau fel 'oherwydd', 'nes', 'os' yn eiriau haniaethol sydd angen ymarfer.
- f. Rhannwch stori eich dydd gyda'ch gilydd. Cymerwch chi'r tro cyntaf a dangoswch sut i ailadrodd un neu ddau o ddigwyddiadau o'ch diwrnod. Defnyddiwch eiriau fel 'yn gyntaf' a 'nesaf' er mwyn gwneud y drefn yn hollol glir. Yna gofynnwch i'ch plentyn am rhywbeth o'i ddiwrnod ef.
- ff. Gwyliwch eich hoff glip 'Youtube' neu raglen deledu gyda'ch gilydd, yna ei adolygu, gan gofio beth ddigwyddodd gyntaf, beth ddigwyddodd nesaf, eich hoff eiliadau a beth ddigwyddodd yn y diwedd.
- g. Gofynnwch i'ch plentyn eich dysgu/egluro sut i wneud rhywbeth sy'n hwyl neu sy'n helpu i ddatrys problem, e.e. defnyddio 'App', chwarae gêm. Gallwch gofnodi ei syniadau ar ffôn neu ysgrifennu ei gyfarwyddiadau i helpu i edrych yn ôl.
- ng. Defnyddiwch gynllun gweledol i helpu i gynllunio dweud stori. Mae nifer o wahanol ffyrdd o wneud hyn. Chwiliwch ar-lein am ddelweddau ar gyfer 'cynlluniwr stori draethiadol' i ddod o hyd i un allasai helpu.
- h. Os oes arnoch chi eisiau edrych sut y mae medrau siarad a chyfathrebu yn gwneud cynnydd graddol, dilynwch y cyswllt hwn i weld poster 'What's typical talk at secondary?'.
<http://www.talkingpoint.org.uk/sites/talkingpoint.org.uk/files/Secondary%20Milestone%20Poster%20-%20Final.pdf>